



Merched Medrus – Bywiogi Rhwydwaith Busnes i Ferched yn Llambed, Ceredigion



Merched Medrus – Bywiogi Rhwydwaith Busnes i Ferched yn Llambed, Ceredigion

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Helen Howells, Hwylus Cyf er sylw Meleri Richards, Cyngor Sir Ceredigion.



Ymgwymerwyd â'r gweithgarwch bywiogi gan Helen Howells, Hwylus Cyf.

Comisiynwyd y gweithgarwch bywiogi gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Cynnal y Cardi, y Grŵp Gweithredu LEADER Lleol i Geredigion.

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn nawdd trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



© Hwylus Cyf, Mehefin 2017

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae'r prosiect Merched Medrus yn cynnwys gweithgarwch bywiogi a ymgwymerwyd gan Hwylus Cyf i ddatblygu rhwydwaith busnes i ferched yn Llambled, Ceredigion.

Darparwyd y bywiogi mewn 3 cham; ymgysylltu wyneb yn wyneb; arbrofi gyda thri o weithgareddau rhwydweithio gwahanol ac astudiaeth achos fideo yn amlygu profiadau tair o ferched sy'n entrepreneuriaid yn Llambled.

Mae rhwydweithio wedi'i amlygu yn weithgarwch sy'n medru cefnogi entrepreneuriaid sy'n ferched i dyfu eu busnesau ond ychydig iawn o gyfleoedd sydd yna am rhwydweithio sy'n canolbwyntio ar fusnes yng Ngheredigion ac yn cwrdd ag anghenion merched yn benodol.

Gweithgarwch Bywiogi

O ganlyniad i ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda merched sy'n berchnogion busnesau yn Llambled datgelwyd pryderon yn ymwneud â Hyrwyddo a Marchnata; Cynyddu Nifer Cwsmeriaid; Treflun a Siopau Gweigion a Mynediad i Gefnogaeth.

Yn ystod y gweithgarwch bywiogi, arbrofodd Helen Howells, Hwylus, gyda thri o weithgareddau rhwydweithio gwahanol yn cynnwys 'Lean In', 'Breakfast Briefing' a Merched mewn Mentrau Gwledig (WiRE). Er mwyn dod â chyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau a recriwtio aelodau i'r rhwydwaith, defnyddiwyd amrywiol sianeli o'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Grŵp Facebook Merched Medrus, postio digwyddiadau ar Twitter a Linked In a thrwy adeiladu Rhestr Tanysgrifwyr MailChimp. Gosodwyd taflenni a phosteri deniadol o amgylch Llambled ac fe'u defnyddiwyd yn ddeunyddiau cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn dilyn gwerthusiad yn yr amrywiol gyfarfodydd, fe wnaeth y mynychwyr benderfynu o blaid y dull a gynigir gan y model WiRE. Ers i'r gweithgarwch bywiogi orffen, mae'r grŵp Merched Medrus wedi esblygu'n rhwydwaith WiRE gyda Helen Howells a Nicola Doyle yn ymgymryd â'r rôl o Arweinwyr Rhwydwaith gwirfoddol. Mae'r grŵp WiRE yn cwrdd bob ail ddydd Iau yn y mis yn 'Artisan's Food & Drink Boutique', Llambled.

Casgliadau

Fe wnaeth y cyfranogwyr weld gwerth y cyfarfodydd gan amlygu'r cryfder o fedru cefnogi ei gilydd a chyfle i rannu problemau. Roedd hefyd yn lle da i gychwyn trafodaethau a datblygu syniadau newydd i'w busnesau ac i Llambled, gan gydnabod y byddai cynyddu nifer cwsmeriaid â'r dref yn dibynnu ar brofiad blaenorol y cyfranogwyr o weithgarwch rhwydweithio.

Gwelir gwerth dod â siaradwyr gwadd i mewn sy'n medru rhoi cyngor a chanllawiau ar bynciau penodol a hefyd yn ysgogi trafodaethau ehangach ymysg y grŵp.

Codwyd llawer o syniadau er mwyn datblygu potensial economaidd Llambled a'r ardal amgylchynol sydd angen rhagor o gefnogaeth er mwyn iddynt fedru datblygu'n llawn. Mae hyn yn cynnwys datblygu Llambled yn Gyrcfan a chynorthwyo gyda chalendr o ddiwyddiadau trwy gydol y flwyddyn; cyflwyno WiFi yn y dref a gwaith dadansoddol dilynol; a gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau buddsoddiad mewnol i wella'r Treflun.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Sir Ceredigion, ar ran Cynnal y Cardi, y Grŵp Gweithredu Lleol - partneriaeth o fudiadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gyda chyfrifoldeb am weithredu gweithgareddau LEADER yng Ngheredigion.
- 1.2 Mae'r prosiect hwn wedi derbyn nawdd trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Ymgwymerwyd â'r gwaith bywiogi gan Helen Howells, Hwylus Cyf rhwng Ionawr a Mai 2017. Cafodd yr adroddiad ei orffen ym Mehefin 2017.
- 1.4 Cynlluniwyd y broses bywiogi yn seiliedig ar LEADER sef Datblygiad a Arweinir gan y Gymuned Leol i Geredigion, gan ganolbwyntio ar y nodweddion canlynol:
 - **Gwaelod i fyny** - cychwynnwyd y bywiogi o safbwynt y perchnogion busnes unigol a gyrrwyd y gweithgareddau gan faterion a godwyd ganddynt
 - **Arloesi** – arbrofi gyda thri dull gwahanol o rwydweithio yn Llambod
 - **Cydweithrediad** – rhannu syniadau a phynciau a godwyd yn y gweithgareddau bywiogi gyda CAVO a thîm Adfywio Cyngor Sir Ceredigion
 - **Rhwydweithio** – dod â pherchnogion busnesau at ei gilydd i gyfnewid syniadau, a manteisio o ddysgu ar y cyd
- 1.5 Cyflawnodd y gweithgarwch bywiogi a ymgwymerwyd fel rhan o Merched Medrus anghenion y Strategaeth Datblygu Lleol trwy adnabod yr anghenion canlynol:

Amcan 2.1.2 – Meithrin amgylchedd o rwydweithio rhwng y gymuned a'r sectorau busnes i rannu arfer dda ac adnoddau.
- 1.6 Darparwyd y bywiogi mewn tri cham:
 - *Cam 1* – ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda pherchnogion busnes yn Llambod
 - *Cam 2* – arbrofi gyda 3 gwahanol fath o rwydweithio
 - *Cam 3* – astudiaethau achos fideo o 3 busnes a gymerodd ran

2 Cefndir

2.1 Amcanion Merched Medrus

Bwriad prosiect Merched Medrus oedd sefydlu rhwydwaith busnes i ferched yn ac o amgylch Llambod, Ceredigion. Mae rhwydweithio yn bwysig i ferched sy'n rhedeg mentrau gwledig ond ychydig o gyfleoedd sydd yna am y mathau hyn o weithgarwch yng Ngheredigion sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer merched ac yn sensitif i'w hanghenion.

2.2 Pam Rhwydweithio? Pam Merched?

Fe wnaeth adroddiad a gyhoeddwyd gan Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FSB) yn Ebrill 2016, dynnu sylw i'r ffaith bod merched yn cynnig posibiliadau i Economi'r DU a bod hynny hyd yn hyn heb ei ddarganfod. Fe allai cynyddu mentergarwch ymysg merched a chefnogi twf busnesau sy'n cael eu rhedeg gan ferched gyfrannu ac ychwanegu £23biliwn i GYG Gwerth Ychwanegol Gros ac economi'r DU.

Mae cefnogi entrepreneuriaeth ymysg merched mewn ardaloedd gwledig yn fantais ychwanegol, gan fod llawer ohonynt yn meddu ar gysylltiadau cryf gyda'r sector amaethyddol - naill ai'n wragedd fferm, yn famau neu'n ferched fferm. Gyda llawer o ansicrwydd yn wynebu'r sector o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae cefnogi'r math hyn o fusnesau yn allweddol os am gynnal llesiant cymunedau gwledig.

Ychydig iawn o gyfleoedd sydd yna i Fusnesau Rhwydweithio yng Ngheredigion. Mae'r Prosiect Merched Medrus yn cynnig dull o ddatblygu rhwydwaith anffurfiol, gyda'r gobaith o gyflawni'r amcanion canlynol:

- darparu cyfleoedd i ferched hyrwyddo eu busnesau a datblygu cadwyni cyflenwi byr oddi fewn i'r economi rhanbarthol
- mynediad i gefnogaeth fusnes trwy wahodd siaradwyr arbenigol a chyfeirio at gynlluniau eraill
- rhannu arbenigedd a gwybodaeth gyda busnesau ar wahanol adegau
- mentora rhwng aelodau
- adeiladu sgiliau newydd
- cynyddu hyder a chefnogaeth i ferched er mwyn adeiladu gwell busnesau
- cyfleoedd i gydweithio ac arloesi

Mae cynyddu hyder ymysg merched sy'n entrepreneuriaid wedi'i amlygu yn fater allweddol gan y FAB a Merched mewn Mentrau Gwledig (WiRE). Yn aml iawn fe'i gwelir fel y ffactor allweddol sy'n medru gwneud gwahaniaeth wrth gymharu entrepreneuriaid gwryw a benyw, sy'n cael effaith ar drosiant busnes. Mae rhwydweithio anffurfiol yn medru cynyddu hyder ymysg merched sy'n berchnogion busnes, ynghyd â chefnogi eu lles emosiynol.

2.3 Ymwneud Hwylus Cyf

Dyfarnwyd y cytundeb i weithio gyda merched busnes yn Llambedi i Helen Howells, Hwylus Cyf, i fesur y diddordeb o sefydlu rhwydwaith busnes ac i adnabod y materion allweddol sy'n eu hwynebu hwy mewn busnes.

Mae Helen ei hunan yn berchen ar fusnes bach, yn ferch leol i Llambedi, a'i theulu wedi bod mewn busnes yn yr ardal ers mwy na 30 o flynyddoedd. Roedd hyn yn benthyg cryn gryfder i'r prosiect oherwydd roedd yn ei chael yn hawdd iawn uniaethu â pherchnogion busnes y dref. Hefyd roedd ganddi'r cryfder ychwanegol o fod eisoes â pherthynas gyda rhai o'r merched. Mae'n bosib fod hyn wedi cael dylanwad ar barodrydd busnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau.



Ychydig am Hwylus

Ymgynghoriaeth ddwyieithog yw Hwylus yn cynnig ymchwil proffesiynol, ymgysylltu â gwasanaethau datblygu busnes i gleientiaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Helen Howells yw'r unig gyfarwyddwr, mae ganddi ddeng mlynedd o brofiad mewn datblygiad gwledig cynaliadwy, ac wedi ymwneud â LEADER yng Nghymru ers 2008.

Mae gwerthoedd Cymreig traddodiadol sef caredigrwydd, gonestrwydd a chyfartaledd yn greiddiol i ddiwylliant gwaith Hwylus. Mae Hwylus yn falch o fedru cynnig gwasanaethau proffesiynol yn llawn cynhesrwydd, chwilfrydedd ac awydd dilys i gael effaith cadarnhaol ar y Byd.

3 Methodoleg

3.1 Cam 1 – Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb

Ymgymryd â thri diwrnod o ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y dref a hefyd trwy alwadau dilynol. Roedd yr ymgysylltu yn golygu sgysiau anffurfiol ac mewn rhai achosion cyflwyniadau rhannol strwythuredig, gan ennill trosolwg o'r busnes penodol, adnabod materion o bwys a mesur y diddordeb i gymryd rhan mewn grŵp rhwydweithio. Aed at y busnesau canlynol:

- Sioned Allan, DT Fitness
- Angharad Williams, Lan Llofft
- Janice Williams, Duet
- Kate McDermott, Ruby Rose
- Judith Howard, Red Apple Yarn
- Sarah Ward, Y Stiwdio Brint
- Nicola Doyle, Artisans Food and Drink Boutique
- Nicola Harries, Cascade
- Gabrielle Davies, Cadi & Grace Florist
- Mared Jones, Mwnci Ffwnci a UAC Ceredigion
- Dee Jolly, Fferyllfa Lloyds Pharmacy
- Carol Davies, Eryl Jones Yswiriant
- Stella John, Mulberry Bush
- Mair Hatcher, Arlwyo Gwenog
- Catrin Davies, Dere i Dorri
- Gemma Thomas, Salon Gem
- Anthea Jones, Panacea
- Carys Wilson, AgriAdvisor
- Popty Briwsion
- Bethan Jones, Carpedi Gwyn Lewis
- Angharad Price, Gwilym Price

3.2 Cam 2 – Arbrofi gyda Chyfarfodydd Rhwydweithio

Cynhaliwyd tri chyfarfod rhwydweithio ym mis Mawrth ac Ebrill 2017 ar y dyddiadau canlynol:

- 9^{fed} Mawrth 2017 – 7.00pm – 'Lean In Circle'
- 29^{ain} Mawrth 2017 – 7.00am – Cyfarfod Brecwast
- 13^{eg} Ebrill 2017 – 7.00pm – Cyfarfod Rhwydwaith Merched mewn Mentrau Gwledig (WiRE)

Er mwyn hyrwyddo'r rhwydwaith yn effeithiol ac ennill mwy o ddiddordeb yn y digwyddiadau, ymgwymerwyd â gweithgaredd hyrwyddo sylweddol. Gwnaed y rhan fwyaf o hyn trwy ddefnyddio llwyfannau digidol, gan gynnwys Facebook, Linked In a MailChimp.

Yn dilyn pob digwyddiad ymgwymerwyd â gwerthusiad ohono, ynghyd ag arolwg byr ar ddiwedd y tri sesiwn er mwyn derbyn adborth gan y rheini a chyfranogodd, ar y model rhwydweithio oedd orau ganddynt.

3.3. Cam 3 – Astudiaethau Achos Clywedol-Gweledol

Gofynnwyd i Lleucu Meinir greu ffilm yn amlygu'r tair astudiaeth achos. Gofynnwyd i'r rheini oedd yn mynychu cyfarfodydd Merched Medrus i wirfoddoli i gymryd rhan yn y ffilm, er mwyn creu cofnod apelgar o'u profiadau y gellir ei ddefnyddio er mwyn rhannu eu hanesion gyda rheini sy'n llunio polisiau, asiantaethau'r Llywodraeth ac er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda grwpiau LEADER eraill o amgylch Cymru a'r rhwydwaith Ewropeaidd ehangach.

Cynhaliwyd cyfweiliadau a recordiwyd y busnesau canlynol gan Helen Howells a Lleucu Meinir ar y 4^{ydd} Mai 2017:

- Nicola Doyle, Artisan's Food and Drink Boutique
- Sarah Ward, Y Stiwdio Brint a Cwtch Camera
- Gabrielle Davies, Cadi & Grace Boutique Flowers

4 Gweithgarwch Bywiogi

4.1 Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb

Ymwelodd Helen Howells ag amrywiol fusnesau yn Llambled yn ystod oriau busnes ar amrywiol ddyddiau ac amserau yn ystod Chwefror a Mawrth 2017, gan holi merched busnes am eu busnesau, adnabod materion tebyg i'w gilydd a mesur y diddordeb mewn sefydlu fforwm rhwydweithio.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda nifer o'r merched, cytunwyd i arbrofi gyda chyfarfodydd am 7pm ar ail ddydd lau o'r mis. Teimlwyd y byddai'n fantais cwrdd yn y dref ac roedd 'Artisan's Food and Drink Boutique' yn gefnogol i'r grŵp gwrdd ar eu safle hwy.

Codwyd y themâu canlynol yn ystod y trafodaethau 1:1 cychwynnol gyda'r merched busnes yn y dref.

4.1.1 Marchnata a Hyrwyddo

Roedd nifer o'r perchnogion busnes yn teimlo nad oeddynt wedi llwyr amgyffred strategaeth marchnata glir ar sut i addasu'r rhain yn werthiant. Roedd nifer hefyd yn teimlo y byddai mynd i'r afael â Marchnata Digidol hefyd o fudd iddynt fel busnesau.

Un o gryfderau'r dref yw'r ffaith bod cymaint o siopau'r dref yn rhai annibynnol dan berchnogaeth teuluoedd a'r profiad siopa personol a gynigir i gwsmeriaid. Byddai derbyn adborth gwrthrychol, megis Siopwr Cudd i asesu rhai o'r siopau a busnesau eraill ar y stryd fawr yn fanteisiol. Byddai adeiladu ar y thema 'Cyrchfan Siopa Personol' yn ddefnyddiol i frandio Llambled fel tref.

Roedd nifer o'r farn yr hoffent archwilio gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd gyda busnesau eraill er mwyn cynyddu nifer cwsmeriaid â'r dref, adeiladu ar y cynllun Cardiau Teyrngarwch a gwneud y gorau o ddigwyddiadau mawr, megis yr Ŵyl Fwyd flynyddol, sy'n dod â llawer o bobl i Llambled ond nid o angenrheidrwydd i'r stryd fawr.

4.1.2 Cynyddu Nifer Cwsmeriaid

Thema sy'n ymddangos tro ar ôl tro gyda pherchnogion busnes yn Llambled yw'r angen i weithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Tref fechan yw Llambled, ac mae angen gwneud ymdrech barhaol i dynnu pobl o'r ardaloedd amgylchynol i mewn i Llambled. Mae nifer yn nodi eu bod yn anodd darogan patrymau ymwelwyr â'r dref o ddydd i ddydd. Byddai prosiect posib yn ymchwilio i'r farchnad yn edrych ar gynyddu nifer cwsmeriaid, gan ddefnyddio telathrebu symudol yn rhoi gwybodaeth werthfawr er mwyn datblygu strategaethau marchnata.

Fel tref sy'n gwasanaethu nifer o gymunedau gwledig, mae Llambled yn dref sy'n cynnig popeth sydd eu hangen arnoch. O eitemau trydan, cyflenwadau o galedwedd a deunyddiau gwneud pethau eich hunain, offer gardd, paint, bwced a mop, digonedd o ddewis o ran bwydydd lleol, cyflenwadau crefft a gwnïo, dillad, rhoddion, celfi a gemwaith. Mae Llambled

yn dref sy'n cynnig amrywiaeth o nwyddau i gwrdd ag anghenion ei chymunedau gwledig. Fe allwch hyd yn oed argraffu eich ffotograffau ymhen yr awr!

Roedd llawer o'r busnesau o'r farn bod dyfodol y dref yn dibynnu ar y dref yn cael ei hyrwyddo yn dref Gyrchfan gan wneud cysylltiadau gyda digwyddiadau twristiaeth. Byddai cynnal cyfres o ddiwyddiadau, yn tynnu pobl i ganol y dref yn allweddol. Mae nifer o ddiwyddiadau llwyddiannus eisoes yn cael eu cynnal yn Llambled, megis yr Ŵyl Fwyd flynyddol a'r egin Ŵyl Golwg, a lansiwyd i ddathlu Pen blwydd Golwg y cylchgrawn wythnosol yn 25 yn 2013. Fodd bynnag, cynhelir y digwyddiadau hyn yn y Brifysgol ac mae natur y campws, gyda mur y coleg ar hyd Stryd y Coleg, i'w weld fel rhwystr i'r ymwelwyr rhag mynd â gwario yn economi ehangach y dref. Mae nifer yn y grŵp wedi dangos parodrwydd i weithio gyda'i gilydd a dysgu o drefi eraill megis Llandeilo, Aberhonddu ac Arberth. Byddai cydweithio agos gyda rhanddeiliaid allweddol megis y Brifysgol ac Adran Dwristiaeth y Cyngor Sir yn hollbwysig os am ddatblygu hyn ymhellach.

Mae Parcio hefyd yn cael ei godi'n aml fel mater sy'n effeithio ar gynyddu nifer cwsmeriaid a chanfyddiadau cwsmeriaid o ba mor rhwydd yw hi i ddefnyddio'r dref. Mae'r amheuan yn parhau ynglŷn â chyflwyno tâl parcio ym maes parcio'r 'Cwmins', mae'r enw ei hunan yn nodi mai 'tir comin' ydyw. O ganlyniad i hyn cafwyd canlyniadau negyddol mewn heolydd llai yn y dref, wrth i lefydd megis Heol Newydd weld ceir yn parcio dwy ochr y ffordd wrth i gerbydau geisio osgoi talu am barcio, gan achosi tagfeydd i fodurwyr a llai a llai o le i gerbydau fedru teithio trwodd. Yn dilyn etholiadau'r Awdurdodau Lleol mae hyn a godir am barcio ceir wedi cynyddu'n sylweddol. Mae nifer yn cwestiynu'r gwerth am arian a chodi am barcio mewn tref fach fel Llambled, o gymharu â'r hyn a godir mewn tref megis Caerfyrddin.

4.1.3 Treflun a Siopau Gweigion

Mae golwg y dref yn bwysig i ganfyddiadau cwsmeriaid ac ymwelwyr. Mae'n deg dweud bod tref Llamed yn edrych braidd yn flinedig ac y byddai'n elwa o gynllun i wella'r Treflun. Mae yna broblem o ran siopau gweigion. Tra bod twf digon iachus o ran siopau newydd yn agor, mae nifer yn nodi bod disgwyliadau landlordiaid o ran incwm rhent a diffyg buddsoddiad mewn eiddo masnachol yn rhwystr mawr i fentrau. Rhwystr arwyddocaol i'r rheini sydd am gychwyn busnes ac am gychwyn ar denantiaeth fasnachol newydd yw y disgwylir iddynt fynd am les pum mlynedd. Mae'n bosib y gellir edrych ar y mater hwn ymhellach oddi fewn i'r sector eiddo gwledig masnachol.

Gyda nifer o eiddo mawr ar y prif strydoedd siopa yn wag, mae'n gallu rhoi'r argraff mai ychydig iawn sydd gan y dref i'w gynnig i rywun sy'n teithio trwodd ac eto mae yna amrywiaeth o siopau annibynnol yn Llamed. Mae yna deimlad ymysg busnesau lleol bod Llamed heb gael y cyfleoedd hynny o ran datblygu ac adfywio, lle mae trefi eraill yng Ngheredigion megis Aberystwyth, Aberteifi a Thregaron wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf.



Archwiliwyd y syniad o siopau 'Pop-Up' yng nghyd-destun adfywio trefi gwledig gan y Grŵp Cefn Gwlad, y grŵp LEADER yn Sir Gaerfyrddin trwy astudiaeth ddichonoldeb a ymgwymerwyd yn 2016. Cantu a ymgwymerodd â'r astudiaeth honno, gan dynnu sylw at y manteision a'r anfanteision niferus o redeg siopau 'Pop-Up' gyda theimladau cymysg o ran busnesau presennol y dref. Y prif bryder gan fusnesau yn y dref yw eu bod yn teimlo dan anfantais gystadleuol oherwydd bod y siopau 'pop-up' hyn yn cael eu trin yn fwy ffafriol, gyda gorbenion is a hefyd eu bod yn gwerthu llawer o stoc am bris gostyngol all gael effaith andwyol ar fasnach mewn tref fechan.

Yng Ngogledd Iwerddon fe wnaeth y prosiect 'Brighter Bushmills' roi chwistrelliad o liw a chreadigrwydd i'r dref gan ddefnyddio celf, ffotograffiaeth a dylunio graffeg er mwyn 'cuddio' eiddo gwag. Fe wnaethant ganolbwyntio ar ddehongli siopau traddodiadol, megis y barbwr, cigydd, gwerthwr llysiau a'r llys! Fe aed â'r syniad ymhellach gyda llwybr treftadaeth i'r dref, gan ddefnyddio'r gwaith creadigol fel atyniad i ymwelwyr. O bosib ei bod yn syniad fyddai'n cydweddu gyda dyheadau'r dref i fod yn dref Gyrchfan ac yn fodd o wneud i'r stryd fawr edrych yn fwy apelgar i'r llygaid i bobl sy'n teithio trwodd.

4.1.4 Mynediad i Gefnogaeth

Micro fentrau yw'r rhan fwyaf o fusnesau Llambled, naill ai'n fasnachwyr hunangyflogedig neu'n gwmnïau bach preifat, naill ai'n Gyfarwyddwyr unigol neu'n bartneriaeth o ddau neu tri (fel arfer gŵyr a gwragedd ac aelodau teulu). Yn aml iawn gall busnesau o'r maint hyn ei chael yn anodd dod o hyd i gefnogaeth briodol oherwydd natur eu llwyth gwaith.

Roedd llawer o'r busnesau a gynhaliwyd cyfweiliad â hwy yn ei chael yn anodd deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae llawer o wefannau, megis un Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru yn anodd o ran dod o hyd i wybodaeth ac yn aml iawn nid oes digon o fanylder o ran y gefnogaeth sydd ar gael. Nodwyd bod gwasanaethau'r Llywodraeth a rhai statudol ar lein yn anodd iawn i'w defnyddio, gan gymryd llawer iawn gormod o amser o ran gweinyddiaeth. Un mater a godwyd dro ar ôl tro oedd anhawster sefydlu'r cynllun pensiwn NEST, gyda gwefan sy'n llafurus gyda nifer o ddiffygion yn perthyn iddi.

Roedd llawer wedi gweld cyrsiau a gweithdai a gynigir gan Busnes Cymru ond yn teimlo eu bod yn cael eu cynnal mewn lleoliadau oedd yn rhy bell i ffwrdd, gan fod hyd yn oed gweithdai 2-3 awr yn cymryd diwrnod cyfan o werthu pe cynhelir yng Nghaerfyrddin neu Abertawe. Mewn llawer o fusnesau manwerthu sy'n fasnachwyr unigol, mae cymryd amser i ffwrdd o'r busnes yn ystod oriau gwerthu yn hynod anodd, ac o ganlyniad, nid ydynt yn ymgysylltu â'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae trethi busnes yn y dref yn cael effaith sylweddol ar ba mor broffidiol yw llawer o fentrau. "Mae'r trethi yn ein parlysu," sylw a wnaed gan Nicola Doyle yn yr astudiaeth achos fideo. Mae'r adolygiad diweddar o'r trethi wedi creu enillwyr a chollwyr. I'r rheini sydd wedi gweld lleihad yn eu trethi, mae nawr yn golygu eu bod yn medru buddsoddi yn eu busnesau ac edrych i dyfu.

Roedd rhai o'r busnesau am ddod o hyd i aelodau newydd o staff gan holi am Brentisiaethau mewn sectorau, yn cynnwys Trefnu Blodau a Gwasanaethau Proffesiynol. Roedd recriwtio a chadw staff yn fater a dynnwyd sylw ato gan lawer o'r busnesau. Yn ystod trafodaethau grŵp, nodwyd nifer o bwyntiau o ran ethig gwaith a disgwyliadau cyflogedigion.

Mater allweddol i sawl busnes yw paratoi ar gyfer yr economi digidol. Cymysg oedd y profiadau gyda marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o'r busnesau'n gyfforddus yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu busnesau ac yn batrwm o sut i yrru gwerthiant a chynyddu nifer cwsmeriaid â Llambled. Mae siop ddillad Lan Llofft yn enghraifft wych o hyn. Fodd bynnag, mae rhai perchnogion busnes eto i fanteisio ar y cyfryngau cymdeithasol, gydag ychydig o ddealltwriaeth o'r cysyniad ac yn dibynnu'n helaeth ar hysbysebu print traddodiadol ac ar lafar o ran ymdrechion marchnata. Mae'r rhwystrau o ran mabwysiadu technoleg ddigidol yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae mynediad cyflym a dibynadwy i fand llydan (cyflym iawn) yn allweddol er mwyn gosod seilwaith ar gyfer unrhyw fusnes. Yn ail, mae posibilïadau o ran cynnig hyfforddiant pellach a mabwysiadu arferion digidol yn y gweithle, ac o bosib mae angen edrych ar deilwra hyfforddiant fydd yn cefnogi'r math o fusnesau - manwerthu, busnesau sy'n ymwneud ag apwyntiadau / llogi, gwasanaethau proffesiynol a lletygarwch.

4.2.1 Hyrwyddo a Recriwtio i Rwydwaith Merched Medrus

Nod y prosiect hwn oedd sefydlu rhwydwaith oedd yn gyfan gwbl newydd i Llambed ac i Ceredigion, felly roedd hyrwyddo'r cyfarfodydd yn hynod bwysig. Tra bod angen digon o niferoedd i gymryd rhan, er mwyn i'r rhwydwaith fod yn ddefnyddiol i aelodau, roeddem yn wylidwrus i beidio â disgwyl i'r un math o farchnata fod yn addas i bawb, gan sicrhau ein bod yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu â chynulleidfa darged craidd.

4.2.2. Deunydd Hyrwyddo Printiedig

Cynhyrchwyd taflenni hyrwyddo deniadol gan Helen ac fe'u rhoddwyd ac fe'u harddangoswyd mewn amrywiol fusnesau yn Llambed.

Merched Medrus
Networking | Training | Ideas

Networking opportunities for women
who mean business in Ceredigion

SECOND THURSDAY
OF THE MONTH
7PM
ARTISAN'S CAFE,
LAMPETER

Find the
Merched Medrus
Group 

Initial pilot sessions have been supported by funding through the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

4.2.3. Marchnata Digidol

Facebook

Aethpwyd ati mewn modd penodol wrth farchnata, i recriwtio merched oedd yn rhedeg busnesau eu hunain neu'n chwarae rôl flaenllaw mewn menter. Sefydlwyd Grŵp Facebook Merched Medrus trwy wahodd merched busnes o amgylch Llambled a hefyd trwy ymgysylltu ag aelodau grŵp WiRE yn Sir Gaerfyrddin, a leolir yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd mae gan grŵp Facebook Merched Medrus 77 o aelodau (Mehefin 2017). Nid yn unig bod y Grŵp Facebook yn gweithio fel modd o hyrwyddo digwyddiadau rhwydweithio, ond mae hefyd yn rhoi gwybodaeth o ddigwyddiadau sydd ar ddod byddai o ddiddordeb i'r merched, cysylltiadau i gefnogaeth megis Chwarae Teg a GWLAD ac fe'u defnyddir hefyd fel modd o fesur y diddordeb mewn gweithgareddau trwy gynnal arolygon ar lein neu trwy osod cwestiynau. Hefyd cafodd y digwyddiad cyntaf a'r poster ei hyrwyddo ar Be' Sy' Mlaen? Grwpiau Facebook 'What's On Ceredigion' a 'Lampeter Swap Shop'.



Twitter

Rhannodd Helen wybodaeth am y cyfarfodydd cyntaf a lluniau o'r rheini a ddaeth ynghyd ar ei chyfrif Twitter personol @HelenGwenllian ac ar ei chyfrif cwmni Hwylus @HwylusTweets. Fe wnaeth y rhwydwaith Merched mewn Mentrau Gwledig #WIREhour sy'n cwrdd ar nos Fawrth, ail drydar sawl un o'r negeseuon. Cafwyd ail drydar gan @WiREUK @ShoutOutWales, @Lleol.Cymru a @BBCRadioCymru a wnaeth ehangu ein cysylltiadau ar y llwyfan.

Linked In

Llwyfan rhwydweithio cymdeithasol yw 'Linked In' ar gyfer dibenion proffesiynol a busnes. Trwy ymestyn allan at gynulleidfa darged, a marchnata BiB (Busnes i Busnes), mae'n llwyfan gwych er mwyn dod o hyd i 'cwsmeriaid delfrydol'. Fodd bynnag, nid yw 'Linked In' mor gyfarwydd mewn ardal wledig megis Llambled, ac mae'r sector busnes sy'n manwerthu yn fwy tueddol o ddefnyddio Facebook a Twitter, lle y gallant dargedu prynwyr/defnyddwyr yn uniongyrchol. Rhannodd Helen bosteri a gwybodaeth am ddigwyddiadau ar ei phroffil 'Linked In' personol.

Mail Chimp

Sefydlwyd rhestr e-bost 'MailChimp' gyda'r wybodaeth gyswllt a gasglwyd o'r ymgysylltu wyneb yn wyneb, a thrwy ddolen a anfonwyd er mwyn dod yn rhan o dudalen Facebook Merched Medrus. Anfonwyd nifer o gylchlythyron e-bost allan yn ystod y prosiect oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael, digwyddiadau a gynhelir yn yr ardal a hefyd er mwyn hyrwyddo amrywiol weithgarwch Merched Medrus. Ar hyn o bryd mae 46 yn tanysgrifio i Gylchlythyr Merched Medrus (Mehefin 2017). Gwelir enghraifft o'r cylchlythyr a gynhychir yn Atodiad 1.

4.3. Arbrofi gyda Gweithgareddau Rhwydweithio

4.3.1 'Lean In Circle' – 9^{fed} Mawrth 2017

Sheryl Sandberg, Prif Swyddog Gweithredu gyda Facebook oedd yr ysbrydoliaeth i'r 'Lean In Circles' a hi yw awdur y llyfr 'Lean In', sy'n edrych ar ferched mewn gwaith ac arweinyddiaeth. Rhwydweithiau cefnogi cyfoedion yw 'Lean In Circles' i ferched sy'n gweithio, sy'n cwrdd i drafod, rhannu ac annog ei gilydd er mwyn cyrraedd eu nodau o ran gyrfa. Mae'n cynnwys dysgu a mentora rhwng cyfoedion wyneb yn wyneb ac fe all hefyd ysgogi mentora mwy strwythuredig oddi fewn i fudiadau mawr neu oddi fewn i ardaloedd lle mae yna glwstwr o brif ddiwydiannau, e.e. 'Silicon Valley' yn California neu Ardal Ariannol Llundain.

Gan mai dyma gyfarfod cyntaf y grŵp, fe wnaethom hefyd ymgymryd â gweithgaredd er mwyn amlygu rhai o'r gweithgareddau y mae'r grŵp yn dymuno canolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen. Yn y sesiwn cynlluniwyd gweithgaredd grŵp er mwyn adnabod pynciau a oedd o ddiddordeb cyffredin. Yn yr ail sesiwn canolbwyntiwyd yn agosach ar weithgaredd 'Lean In circle', gan edrych ar rwydweithio yn benodol.

Ymarfer 1 – Beth yw'r materion sy'n eich wynebu mewn busnes?

Gofynnwyd i'r rheini oedd yn cymryd rhan i nodi'r ddau brif fater sy'n eu hwynebu mewn busnes ar ddarn bach o bapur. Cawsant eu gwahodd i rannu'r hyn a nodwyd ar siart ym mlaen yr ystafell. Yn ystod yr egwyl, rhoddodd Helen y darnau bach papur yn bentyrrau tebyg o ran thema a chafwyd trafodaeth gan y grŵp cyfan. Isod gellir gweld tabl o faterion a godwyd gan aelodau'r grŵp. Yn ystod y drafodaeth agored, teimlodd llawer o'r merched anogaeth oherwydd eu bod yn rhannu materion tebyg i'w gilydd ac o ganlyniad yn teimlo'n 'llai unig', rhyddhad trwy fedru siarad yn agored am rai o'u pryderon mewn grŵp o ferched tebyg i'w gilydd.

Cyllid	<ul style="list-style-type: none">• Buddsoddi mewn offer newydd• Tyfu ac Ehangu Busnes
Materion Cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none">• Cyngor ar Strwythur Cwmni• Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol
Pensiynau	<ul style="list-style-type: none">• Cyngor ar bensiynau ac arbedion i berchnogion busnes• Gweinyddu'r cynllun pensiwn gweithle NEST
TGCh	<ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau seiliedig yn y 'cwmwl'• Diweddarau meddalwedd a chaledwedd
Strategaeth	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu strategaeth hir dymor i'r busnes• Eglurder angen
Adnoddau Dynol	<ul style="list-style-type: none">• Recriwtio'r staff cywir i'r busnes• Polisiâu gweithio'n hyblyg
Cyfrifo a Chadw Llyfrau	<ul style="list-style-type: none">• Bod yn drefnus a chadw llyfrau• Goblygiadau treth a therfynau amser
Rheoli Amser	<ul style="list-style-type: none">• Blaenoriaethu llwyth gwaith• Prosesau effeithlon a chefnogaeth TGCh
Marchnata	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd• Hyrwyddo'r busnes

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Marchnata cost Effeithiol i fusnesau bach • Datblygu Ffocws Cwsmer • Trosi Marchnata yn Werthu |
|--|

Sut all grŵp megis Merched Medrus helpu eich busnes?

Mewn trafodaeth agored, gofynnodd Helen i'r rheini oedd yn bresennol beth allai Merched Medrus ei wneud i'w cefnogi gyda'r materion a godwyd.

- Rhannu Sgiliau a chael Mynediad i hyfforddiant ar y cyd
- Rhannu gwybodaeth am yr amrywiol weithgareddau a digwyddiadau sy'n digwydd yn yr ardal
- Mentora cyfoedion a lle diogel i siarad am faterion yn ymwneud â busnes
- Cael mynediad i ddisgowntiau ar y cyd
- Datblygu ffyrdd o arddangos y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn Llambled a'r ardal oddi amgylch
- Rhwydweithio a chyfeirio busnes i'w gilydd
- Darparu llais a dylanwad ar y cyd
- Cydweithio er mwyn cael mynediad i nawdd neu er mwyn datblygu prosiectau fydd yn dod â phobl i mewn i'r dref
- Hwb lle y gellir rhannu gweithgareddau, h.y. Canllaw i Dref Llambled, Twristiaeth Canolbarth Cymru, Croeso i Flwyddyn Chwedlau Cymru ac ati.

Fideo 'Lean In' a thrafodaeth

Gwylodd y cyfranogwyr fideo 10 munud ar Rhwydweithio sydd ar gael yn adran Adnoddau ar wefan 'Lean In'. Dilynwyd hyn gyda thrafodaeth wrth i'r ddau fwrdd fapio eu rhwydweithiau cyfredol gan ddechrau adnabod ffyrdd o hyrwyddo eu busnesau a hefyd i ehangu eu rhwydwaith o gefnogaeth.

Nifer a Fynychodd: 16

4.3.2 Cyfarfod Brechwast – 29^{ain} Mawrth 2017

Gweithgareddau'r Digwyddiad

Awgrym Merched Medrus oedd y dylai'r sesiwn hwn ganolbwyntio ar 'Diwrnod yn eich Bywyd chi a'r busnes ...' Yn rhan o gynllun y sesiwn roedd gêm torri'r garw ac i bob 'Merch Medrus' i adrodd ei hanes.

Gyda llai o ferched yn mynychu, newidiodd y fformat rhyw ychydig gyda'r holl gyfranogwyr yn eistedd o amgylch bwrdd bach, ac yn cymryd tro i siarad am eu busnes, ac i ddilyn cafwyd trafodaeth anffurfiol.

Y prif themâu a drafodwyd wrth y bwrdd oedd anawsterau yr oedd y busnesau'n eu hwynebu o ran recriwtio a chymell staff. Hefyd trafodwyd y cyfleoedd i rwydweithio o amgylch

Ceredigion a Gorllewin Cymru, sy'n gyfyngedig iawn. O'r ychydig fenywod a fynychodd, yr adborth a dderbyniwyd oedd eu bod wedi mwynhau cyfarfod mewn grŵp llai ac agosach ac yn teimlo eu bod wedi medru dod i adnabod y merched eraill yn dda, gan arwain at drafodaeth fwy ystyrlon.

Nifer a Fynychodd: 4

4.3.3. Cyfarfod Rhwydwaith Merched mewn Mentrau Gwledig (WiRE)

Rhwydwaith genedlaethol o Brifysgol Harper Adams yn Swydd Amwythig yw WiRE i gefnogi busnesau; mae'n hyrwyddo, cefnogi a datblygu ei aelodaeth o ferched gwledig mewn busnes. Mae WiRE yn cynnig pecyn o gefnogaeth busnes ymarferol sy'n cynnwys mynediad i 50 o rwydweithiau WiRE ar draws y DU lle mae merched mewn busnes yn rhannu arbenigedd a gwybodaeth, adeiladu sgiliau newydd, yn magu hyder ac yn cefnogi ei gilydd i greu gwell busnesau. Nid oes unrhyw fformat penodol i'r cyfarfodydd WiRE, nid oes rheolau ynglŷn â sut y dylai'r cyfarfodydd WiRE rhedeg ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn y fformat o wahodd siaradwr gwadd i rannu gwybodaeth ar ryw faes, ac i ddilyn ceir trafodaeth grŵp a diweddariad ar eitemau o ddiddordeb.

Siaradwr Gwadd – Carys Ifan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Yn ystod y sesiwn WiRE, cyflwynodd Carys Ifan, darlithydd yn y Diwydiannau Creadigol gyda GWLAD prosiect dysgu seiliedig ar waith, sgwrs ar Farchnata Digidol. Trafododd y grŵp amrywiol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ddysgu am dueddiadau digidol ac ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd defnyddio technegau marchnata traddodiadol mewn cyd-destun Digidol.

Fe wnaeth Carys hefyd hyrwyddo GWLAD, sef hyfforddiant sy'n derbyn cymhorthdal i ddatblygu sgiliau seiliedig ar waith ac roedd nifer yn dangos diddordeb mewn dysgu mwy am Farchnata a datblygu cynllun Marchnata digidol ar gyfer eu busnesau.

Nifer a Fynychodd: 11

4.4 Astudiaeth Achos Fideo

Cytundebwyd Lleucu Meinir i ddatblygu astudiaethau achos fideo o dri o'r cyfranogwyr sy'n rhan o'r prosiect. Fe wnaeth pob un o'r tri gymryd rhan yn yr ymgysylltu 1:1 a'r gweithgareddau rhwydweithio. Amlygwyd nifer o'r themâu a godwyd yn y cyfarfodydd cychwynol 1:1 yn yr astudiaethau achos. Mae cyfranogwyr yr astudiaethau achos yn cynnwys:

- Nicola Doyle, Artisan's Food and Drink Boutique
- Sarah Ward, Y Stiwdio Brint a Cwtsh Camera
- Gabrielle Davies, Cadi & Grace Boutique Flowers

Recordiwyd y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda'r cyfranogwyr gan Helen Howells a Lleucu Meinir ar y 4^{ydd} Mai 2017. Dilynodd y cyfweiliadau'r fformat canlynol:

1. Cyflwyno eich hunan a'ch busnes.
2. Beth sydd gennych i'w gynnig i'ch cwsmeriaid?
3. Beth yw'r pethau allweddol sy'n wynebu eich busnes yn Llambod?
4. Ydy bod yn rhan o brosiect Merched Medrus wedi bod o gymorth i chi mewn unrhyw fodd?

5 Canlyniadau

5.1. Allbynnau'r Prosiect

Dyma'r Allbynnau a ddaeth o ganlyniad i weithgarwch bywiogi Merched Medrus i'w monitro yn erbyn data perfformiad LEADER.

- Nifer y gweithgareddau peilot a gefnogwyd – 1
- Nifer y grwpiau clwstwr / rhwydweithiau anffurfiol – 1
- Nifer y rhanddeiliaid a gymerodd ran – 4 (CAVO, Busnes Cymru, Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (prosiect GWLAD))
- Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd - 25 (wyneb yn wyneb) - 77 (trwy'r grŵp Facebook)
- Nifer yr astudiaethau achos fideo – 3 astudiaeth achos (1 ffilm fer)
- Nifer yr adroddiadau - 1

Rhestr o'r cyfranogwyr a gymerodd ran trwy'r cyfweiliadau 1:1 neu a fynychodd y cyfarfodydd Rhwydwaith:

- Sarah Ward, Y Stiwdio Brint
- Gabrielle Davies, Cadi & Grace
- Alwena Evans, JH Roberts a'i Feibion
- Anthea Jones, Panacea – Y Parlwr Pincio
- Kate McDermott, Ruby Rose
- Nicola Doyle, Artisan's Food & Drink Boutique
- Nicola, Cascade Florist
- Judith Howard, Red Apple Yarn
- Julie Grabham, JG HR Solutions
- Phillippa Hall, Tartan Turtle Leadership Coaching
- Ann Burns, Stuffing & Springs and Cariad Keepsakes
- Delyth Williams, Swyddfa Del
- Bethan Thomas, ADVE Solicitors
- Bethan Jones Lewis, Gwyn Lewis Carpets Ltd
- Mair Hatchers, Cegin Gwenog Catering
- Carys Wilson, Agri Advisors
- Susanne Ryder, Susanne Ryder Photography
- Donna Smith-Jones, Lili Mai
- Susan Barry, Notch Handmade
- Marian Nixon, Marian Haf
- Angharad Williams, Lan Lloff
- Angharad Price, Gwilym C Price Son & Daughters
- Meleri Morgan, The Falcondale Hotel & Restaurant
- Rachel Stelmach, Ciwbiau Llambod – Lampeter Cubes
- Angharad Williams, Williams & Bourne Solicitors

5.2 Canlyniadau'r Prosiect

Y rhesymwaith dros gymell Bywiogi Rhwydwaith Busnes i Ferched yn Llambled oedd er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol:

5.2.1. Darparu cyfleoedd i ferched hyrwyddo eu busnesau a datblygu cadwyni cyflenwi byr yn economi'r rhanbarth

Yn ystod y tri chyfarfod rhwydweithio, roedd gan y cyfranogwyr gyfle i gyflwyno'u hunain i wynebau 'newydd' gan hyrwyddo'r nwyddau a'r gwasanaethau oedd ganddynt i'w cynnig. Dyddiau cynnar yw hi o hyd o ran datblygu cadwyni cyflenwi ffurfiol ac aed ati i greu rhwydweithiau anffurfiol o gymharu â phrofiad llawer iawn mwy strwythuredig yn canolbwyntio ar werthu, megis y 'BNI International'. Fformat na fyddai wedi apelio at y cyfranogwyr.

Ar yr un pryd â phrosiect Merched Medrus, mae is-grŵp o'r Siambr Fasnach wedi bod yn gweithio ar Fenter 'Totally Locally Llambled' er mwyn annog cadwyni cyflenwi lleol ymysg busnesau yn Llambled. Mae'r grŵp Merched Medrus yn cynnig cyfle i syniadau megis y rhain gael eu rhannu a hefyd eu lledaenu'n ehangach.

5.2.2. Mynediad i gefnogaeth fusnes trwy wahodd siaradwyr arbenigol a chyfeirio i gynlluniau eraill

Yn ystod y cyfarfodydd rhwydweithio a ariannwyd gan y Bywiogi, rhoddodd Carys Ifan, Darlithydd yn y Diwydiannau Creadigol gyda PCYDDS sgwrs arbenigol ar Farchnata Digidol. Yn ystod pob un o'r digwyddiadau, cyfeiriwyd y cyfranogwyr at wahanol gynlluniau, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi ILM rhad ac am ddim gyda Chwarae Teg, diwrnodau agored a chysiau GWLAD a Gweithdy Cyflymu Cymru i Fusnesau.

Ers y cyfarfodydd a ariannwyd, mae'r grŵp Merched Medrus wedi cyfarfod ddwywaith, gan wahodd dau siaradwr gwadd: Julie Grabham - i roi cyngor AD, a Sarah Ward - yn cyflwyno ar egwyddorion dylunio.

Mynychodd Bronwen Raine, Busnes Cymru gyfarfod, gan rannu gwybodaeth am y cyfleoedd a chefnogaeth sydd ar gael.

Cyfarfu Helen Howells â Mel Davies a Bronwen Raine yn ystod y prosiect Merched Medrus gan rannu gwybodaeth ar y materion a godwyd gan y grŵp. Cytunodd Busnes Cymru i ddatblygu gweithdy wedi'i deilwra i'r grŵp gyda chefnogaeth o ran gofal plant. Y bwriad yw cynnal y gweithgaredd Hydref 2017. Fe lwyddodd Helen hefyd i gael tîm Cyflymu Cymru i Fusnesau i gynnal cyfarfod gyda'r nos ar Dechnoleg Ddigidol i Dyfu Busnes (rhwng 6pm a 8.30pm) yng Ngwesty'r Falcondale ar y 14^{eg} Mehefin 2017.

5.2.3. Rhannu arbenigedd a gwybodaeth i fusnesau ar wahanol gamau

Yn ystod trafodaethau grŵp anffurfiol yn y cyfarfodydd, mae wedi dod yn amlwg bod nifer o'r merched wedi elwa o'r cyfle i godi materion sy'n achosi pryder a derbyn cyngor gan ferched busnes mwy profiadol. Mae cael cymysgedd o fusnesau hefyd wedi bod yn ddefnyddiol, lle mae cyfrifwyr, cyfreithwyr ac arbenigwyr AD wedi medru rhoi arweiniad ar ymholiadau gan fusnesau manwerthu a busnesau yn ymwneud â lletygarwch.

5.2.4. Mentora rhwng aelodau

Mae rhai o aelodau'r grŵp wedi'u cofrestru trwy'r rhaglen Busnes Cymru ac mae rhai perthnasoedd mentora wedi cychwyn trwy'r grŵp. Mae llawer iawn o'r mentora wedi bod yn anffurfiol, lle mae aelodau wedi cwrdd am goffi i drafod pryder.

5.2.5. Adeiladu Sgiliau Newydd

Mae'n anodd datblygu sgiliau newydd mewn tri chyfarfod, lle mae'r ffocws ar arbrofi gyda chyfarfodydd rhwydweithio gwahanol, nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud â datblygu sgiliau. Fodd bynnag, i lawer o'r cyfranogwyr mae rhwydweithio busnes yn gysyniad newydd a gellid ei ystyried yn sgil newydd. Heb amheuaeth, dysgwyd gwybodaeth newydd trwy gynnal y gweithdai. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth anffurfiol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fusnesau yn yr ardal, a'r sgwrs a roddwyd gan Carys Ifan am offer a thechnegau o ran marchnata digidol.

5.2.6. Codi Hyder a Chefnogaeth i ferched er mwyn Adeiladu Gwell Busnesau

Datblygodd Helen daflen Olwyn Fusnes i fonitro hyder pobl mewn gwahanol ardaloedd o fusnes yn ystod y cyfarfod cyntaf ond mae hyder yn fesur goddrychol ac nid yw'r prosiect hwn â'r adnoddau i fesur hyn mewn manylder.

Mae nifer wedi gwneud sylwadau bod dod i'r cyfarfodydd wedi'u gwneud i feddwl a chwestiynu'r ffordd y maent yn gweithio, neu wedi tanio syniad i ddatblygu eu busnesau ymhellach.

5.2.7. Cyfleoedd i Gydweithio ac Arloesi

Mae'r cyfarfodydd Merched Medrus wedi dwyn merched ynghyd merched nad oedd cyn hynny wedi cael y cyfle i gwrdd a thrafod busnes. Tra bod gan y cyfarfodydd ffocws ar gydweithio tuag at nod penodol, heb amheuaeth mae'r cyfarfodydd yn cynnig sail i berthnasoedd gael eu sefydlu a hefyd modd o ysgogi syniadau i'w datblygu ymhellach.

Gan fod y 'gwaith caib a rhaw' wedi'i wneud o ran creu fforwm i ferched sy'n hapus i gydweithio, fe allai buddsoddi mewn cyfleoedd am Setiau Dysgu Gweithredol neu roi adnoddau yn benodol i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen fod yn gyfle i ychwanegu gwerth ac i symbylu'r syniadau a chreu perthnasoedd gwaith.

O ran cynaliadwyedd y grŵp, mae Helen Howells a Nicola Doyle wedi ymgymryd â rôl arweinyddion gwirfoddol rhwydwaith WiRE. Mae Merched Medrus bellach wedi'i ffurfio'n grŵp WiRE ac wedi cynnal cyfarfodydd ar yr 11^{eg} Mai a 8^{fed} Mehefin.

5.2.8. Canlyniadau Ychwanegol

Yn ystod y cam 1:1 cychwynnol, cafwyd cyfle i gael gwybod am faterion sy'n wynebu busnesau penodol. Mae'r Stiwdio Brint yn chwilio i ehangu ei siop i gynnwys stiwdio ffotograffiaeth, gan fod yr amser sy'n mynd i roi pethau yn eu lle yn ffactor sy'n cyfyngu ar y busnes, ac mae'n rhaid iddynt


gynnal sesiynau pan mae'r siop ar gau. Mae busnes arall, 'JH Roberts electricals', am roi ystafell arddangos ar les oherwydd mae nwyddau trydan bellach yn medru cael eu dosbarthu trannoeth. Trwy sgysiau ar hap a damwain, llwyddodd Helen i ddod â'r ddau fusnes ynghyd a bellach mae gan Y Stiwdio Brint Stiwdio sy ar agor i fusnes.

5.3 Gwerthuso'r Gwahanol Fodelau Rhwydweithio

5.3.1. 'Lean In Circle' – 9^{fed} Mawrth 2017

Nifer a Fynychodd: 16

Adborth




Sylwadau

Cryfderau	Lleiaf Defnyddiol
<ul style="list-style-type: none"> Clywed syniadau / sylwadau pobl eraill Rhwydweithio a medru sgwrsio fel grŵp a rhannu syniadau Cwrdd â phobl eraill yn y gymuned ac annog rhannu syniadau Y fideo'n ddiddorol a chwrrd â phobl newydd Rhannu gwybodaeth oddi fewn i grŵp 	<ul style="list-style-type: none"> Fideo - ddim wir yn berthnasol i'r ardal hon / math o fusnesau, h.y. bach a hunangyflogedig / teuluol Dim O bosib nad oedd y fideo yn addas i Lamed / Ardal wledig a sut y gallai rhwydweithio o bosib weithio yn yr ardal hon

<ul style="list-style-type: none"> • Deall sgôp rhwydweithiau pawb - y posibilïadau o ran creu cysylltiadau defnyddiol. Calonogol gweld pa mor amrywiol ydym ni, a phob un angen rhywfaint o gefnogaeth fusnes • Cyfle i drafod gyda merched eraill mewn busnes ac i rannu syniadau • Cwrdd â merched sydd â'r un diddordebau, mae'n edrych fel rhywbeth dwi wedi bod yn chwilio amdano ers cryn amser, e.e. TG, Instagram, Facebook – deall mwy amdanynt, braf oedd clywed y merched ar ein bwrdd ni yn esbonio sut y maent yn gwneud pethau • Diben Merched Medrus • Adnabod materion craidd a chyffredin sy'n wynebu pob un ohonom. Medru adnabod meysydd o ddi-ddordeb a pherthnasedd sy'n gyffredin i'r grŵp cyfan. • Yn bennaf sefydlu rhwydwaith a gweld llawer o faterion sy'n gyffredin • Cyfathrebu a mewnbwn gan y rheini sy'n bresennol a dod i nabod y gwahanol bobl sy'n ymwneud â gwahanol ddiwydiannau yn yr ardal • Trafodaethau gydag aelodau'r grŵp – medru cyfnewid syniadau. Y gallu i danio syniadau a gwneud i rywun feddwl y tu allan i'r cyfarfod. Cwrdd â phobl, cychwyn meithrin perthnasoedd 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dymuno clywed mwy o hanesion busnes • Llanw Ffurflenni • Roedd pob trafodaeth yn fuddiol, dim anghytuno hyd yn hyn • Y fideo, ddim yn addas i'r ardal hon, ar gyfer cwmnïau mwy o faint • Dim • Nid oedd y fideo yn berthnasol iawn oni bai eich bod yn rhan o fudiad mawr • Fideo - y fenyw yn Americanaidd, teimlo'n amherthnasol i berchnogion busnesau bach tebyg i'r rhai a geir yng Nghefn Gwlad Gorllewin Cymru lle rwy'n meddwl bod rhwydweithio'n digwydd yn wahanol, h.y. llai ffurfiol
--	--

<p>Sylwadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • O bosib arbenigwr i fynychu pan drafodir rhyw bwnc a rhannu cyngor a gwybodaeth • Symud ymlaen, credaf y bydd y cyfarfodydd hyn yn fuddiol i mi a'r busnes • Roedd amser a diwyg y cyfarfod yn dda a chyfleus ond o bosib dull sy'n canolbwyntio mwy ar hyfforddiant / mwy addysgiadol yn y dyfodol • Yr amser a'r drefniadaeth yn dda • Edrych ymlaen at sesiynau gyda mwy o ffocws, megis y marchnata digidol • Dydd lau yn ddiwrnod da am gyfarfod. Teimlo bod llawer o bobl yn swil ac yn anghyfforddus i siarad yn uchel yn y grŵp mawr. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn cynyddu / gwella gydag amser wrth i bobl ddod i nabod ei gilydd • Amser yn iawn • Edrych ymlaen at gyfarfodydd y dyfodol ac o bosib at ddysgu sgiliau newydd • Hapus gyda'r ddau • Amgylchedd da i gynnal cyfarfod • Gwych ei bod yn bosib ei gyflawni, mynychu unwaith y mis – teimlo fel ein bod wedi cynnwys llawer iawn heno ond defnyddiol iawn a diddorol
--

Adborth




Sylwadau

Cryfderau	Lleiaf Defnyddiol
<ul style="list-style-type: none"> Gwybod bod eraill yn mynd i wneud neu yn gwneud yr un peth â fi o ran busnes – mwy personol Dod i nabod merched eraill, gyda'r un materion busnes Dealltwriaeth dda o'r materion a phethau cadarnhaol y mae merched eraill mewn busnes yn ymdrin â hwy yn aml Teimlad ymlaciol ond strwythuredig. Trafodaeth agored a digonedd o gefnogaeth a chyfle gwych i leisio pryderon am fusnes a chael atebion gonest. Hefyd yn wych cael cwrdd â merched busnes eraill yn ardal Llambod Bod yn agored, tryloyw a chefnogi merched sy'n barod ac yn fodlon i rannu profiadau 	<ul style="list-style-type: none"> Roedd pob dim yn ddefnyddiol Roedd y bingo yn ddefnyddiol ond ddim yn glir o ran ei bwrpas Angen mwy o ganlyniadau cynhyrchiol o'r cyfarfod – mae angen i mi feddwl am y rhain hefyd Mwynheais bob agwedd Llai o ferched na'r disgwyl, ond ddim yn broblem fawr oherwydd roedd yn fore dymunol beth bynnag
Unrhyw Sylwadau Cyffredinol?	
<ul style="list-style-type: none"> Dim problem o ran yr amser Gyda dim ond pedwar yn mynychu mae'n ymddangos nad yw boreau cynnar yn addas i'r grŵp hwn. Mae'r meddwl yn gliriach yn y bore ond yn hapus i fynychu unrhyw bryd Credu ei bod yn achos o ddod o hyd i amser sy'n gweithio a chyflwyno adran ar 'dysgu a chefnogi', h.y. marchnata digidol, cynllunio busnes ac ati. Rwy'n fwy na pharod i fynychu eto, hyd yn oed fel 'digwyddiad' rhwydweithio mwy personol a llai strwythuredig ochr yn ochr â'r prif nosweithiau rhwydweithio 	

5.3.3 Cyfarfod Rhwydweithio Merched mewn Mentrau Gwledig (WiRE) – 11^{eg} Ebrill 2017

Adborth



Sylwadau

Cryfderau	Lleiaf Defnyddiol
<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu â pherchnogion busnes eraill • Dysgu am wahanol ffyrdd i farchnata'r busnes • Barn ymlaciol ond addysgiadol am farchnata digidol • Cwrdd ag eraill a gwybodaeth am farchnata digidol • Crynodeb da am farchnata digidol a syniadau i'w hystyried • Cyfle i adnabod cyfleoedd o ran marchnata trwy gyflwyno strategaethau gan Carys – SOSTAC, prism sgwrs ac ati. • Cyfle i gwrdd / siarad / creu cysylltiadau â busnesau lleol • Trafodaeth gyffredinol gyda busnesau eraill • Mewnwelediad i farchnata cymdeithasol, yr hyn sydd ar gael a'r hyn y gellir ei gyflawni 	<ul style="list-style-type: none"> • Y 'gemau' dod i adnabod eich gilydd • Ddim yn rhy hoff o lanw ffurflenni. Y rhai sydd at "fy nefnydd i". Allai ddim â gweld sut fydd y rhain o ddefnydd
Sylwadau Cyffredinol	
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd i gychwyn yn gynt, byddai syth ar ôl gwaith yn dda 	

- Hyd yn hyn mae pob digwyddiad wedi bod yn bleserus. Byddai'n neis cael clywed am yr hyn mae pob aelod yn ei wneud, busnes ac ati.
- Cynharach yn y nos
- Hapus i gychwyn yn gynt os oes angen
- Siaradwyr yn syniad gwych
- Byddai Atodlen / Calendr o ddigwyddiadau yn ddefnyddiol

5.4 Cymharu'r tri gwahanol gyfarfod

Cafodd arolwg ar lein ei gylchredeg yn dilyn y cyfarfod Merched Medrus olaf a gefnogwyd fel rhan o'r gweithgarwch Bywiogi a derbyniwyd 16 ymateb

Y math o gyfarfodydd a ffefrir

O'r 16 ymateb:

- 10 yn ffafrio'r cyfarfodydd WiRE
- 1 yn ffafrio'r cyfarfodydd 'Lean In'
- 1 yn ffafrio'r Cyfarfodydd Brecwast
- 4 ddim yn ffafrio un yn fwy nag un arall

Amser Cyfarfodydd

18:00 oedd yr amser a nodwyd fel yr un mwyaf addas i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Yn y cyfarfodydd blaenorol, oedd yn cychwyn am 19:00 teimlwyd bod pobl wedi blino erbyn diwedd y cyfarfodydd. Roedd hefyd yn decach i berchennog y siop goffi er mwyn peidio â chadw staff mor hir wedi oriau cau.

Unrhyw syniadau eraill ar gyfer strwythur y grŵp?

- Rwy'n credu y byddai'n syniad da rhestru'r prif faterion sy'n effeithio'r Grŵp, pa faterion sydd wedi'u gwneud ac yna rhannu yn wahanol grwpiau prosiect/is grwpiau er mwyn gweithio arnynt, trafod y syniadau a chyflwyno ar hyn bob mis o ran cynnydd gyda chyflwyniad terfynol dyweder mewn 3 i 6 mis. Er enghraifft, mae cynyddu nifer cwsmeriaid â'r dref yn bryder i rai aelodau'r grŵp ac i drawstoriad o fusnesau; a gweld ydy pobl yn gallu meddwl am fentrau fydd yn gymorth i gynyddu/gwella hyn.
- Dyddiau cynnar i mi, y rhwydweithio a'r cyngor yn wych.
- Cyflwyniadau gan aelodau
- Rwyf wedi mwynhau'r cyfarfodydd ac yn edrych ymlaen at ein cyfarfod nesaf. Gobeithio y bydd gyda'r nos.
- Dwi'n hoffi'r strwythur sy'n cael ei seto mas gan siaradwraig gwadd, ac yna falle trafodaeth ar y testun ar ei ôl. Mi oedd y glonc ar ddiwedd y cyfarfod WiRE yn go dda - pawb yn trafod yn agored, gydag amryw bwnc cysylltiedig yn dod i'r ford. Wedi dweud hyn, byddai'n rhaid i fi feddwl am dalu i fod yn aelod o WiRE i gael e i ddigwydd eto.
- Hoffwn i weld y grŵp yn helpu'i gilydd gyda'r materion unigryw yr ydym yn eu hwynebu oddi fewn i fusnesau unigol. Hoffwn i greu cysylltiadau rhwng busnesau fyddai o fudd i'r ddwy ochr. Hefyd o bosib cyfathrebu gyda grwpiau neu gymdeithasau eraill yn Llambod sy'n

ceisio canolbwyntio eu hymdrechion, a gweld a yw'n bosib i'r gefnogaeth/cyngor neu draws farchnata gael ei gyflwyno er budd y dref yn gyffredinol.

- Ddim yn gynhwysol os ydych yn parhau i gwrdd ar yr un amser a diwrnod/noson.
- Amser i rannu a siarad am faterion yr ydym yn eu hwynebu yn ein busnesau ar hyn o bryd
- Dull mwy ymarferol o edrych ar broblemau dydd i ddydd a sut i'w datrys yn hytrach nag ymarferion 'adeiladu tîm'.

6. Casgliadau a Chamau Nesaf

- Mae rhwydweithio yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. I ferched sydd wedi mynd i fusnes wedi gyrfa mewn amgylchedd corfforaethol, roeddynt yn gweld ei berthnasedd a'i fanteision yn rhwydd. I rai, mae'r cysyniad o rwydweithiau busnes yn gysyniad weddol newydd. Er bod llawer o berchnogion busnes yn ymgymryd â rhwydweithio yn rheolaidd, ychydig iawn ohonynt oedd yn gweld hyn fel gweithgareddau rhwydweithio ac o ganlyniad yn ei chael yn anodd sylweddoli ei berthnasedd a manteision posib bod yn rhan o grŵp. Mewn ardal wledig, lle mae tuedd i fabwysiadu rolau o ran rhyw, mae'n bosib gweld rhwydweithio fel rhywbeth a wneir gan ddynion, ac nid gan ferched.
- Mae angen rheoli disgwyliadau'n ofalus gyda grŵp o fusnesau mor amrywiol, mae amrywiaeth mawr wrth ddewis gweithgareddau neu sgysiau sy'n berthnasol i bawb. Hefyd o ran yr amser a dreuliwyd ar y prosiect, mae amser sylweddol wedi mynd ar ymgysylltu, cyflwyno a chyfathrebu gyda phawb sydd wedi cyfranogi i'r prosiect, ac ni chyllidwyd amdano.
- Parhau i gwrdd fel Rhwydwaith Busnes i Ferched yn Llambled. Mae'r grŵp Merched Medrus wedi esblygu'n grŵp WiRE, gyda Helen Howells a Nicola Doyle yn ymgymryd â rôl cydlynwyr rhwydwaith gwirfoddol. Mae'r grŵp yn cwrdd am 6pm ar ail ddydd lau'r mis yn 'Artisan's Food and Drink Boutique'.
- Sefydlu Setiau Dysgu Gweithredol neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i arwain ar amrywiol themâu, megis datblygu cais Treftadaeth Treflun i Llambled, datblygu digwyddiadau a marchnata ar y cyd i ddenu ymwelwyr i'r dref.
- Derbyn adborth gwrthrychol ar fusnes – siopwyr cudd i fusnesau'r dref
- Datblygu monitro ymwelwyr neu gwsmeriaid â'r dref er mwyn darparu data dadansoddol cadarn i gynorthwyo i ddatblygu ymgyrch farchnata a busnes - gweithio gyda threfi bach eraill yn yr ardal a'r posibilrwydd o archwilio technoleg ddigidol i gael data demograffig o'r rheini sy'n ymweld ac yn siopa yn y dref - mae Wi-Fi rhad ac am ddim yn y dref yn rhan allweddol o fedru casglu'r data hwn

- Gwaith gyda Busnes Cymru i ddatblygu gweithdy wedi'i deilwra i'r grŵp. Mynychodd Bronwen Raine, Rheolwr Rhanbarthol Busnes Cymru gyfarfod Merched Medrus ar yr 8^{fed} Mehefin.
- Cyd ddysgu ar hyrwyddo a marchnata digidol – gweithdai anffurfiol gyda sgiliau ymarferol wrth ddatblygu fideo syml ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Arbrofi gyda'r dull hwn mewn tref wledig arall er mwyn cynyddu ysbryd entrepreneuraidd ymysg merched
- Er mwyn ymgysylltu mae angen adnoddau a momentwm parhaol – mae llawer iawn o'r hyn a gyflawnwyd yn Llambod wedi dod o ganlyniad i berthnasoedd sydd eisoes yn bodoli rhwng yr ymgynghorydd a'r busnesau

7. Cydnabyddiaeth

Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau a pharatoi'r adroddiad hwn, dymuna Hwylus Cyf gydnabod cyfraniad nifer o fudiadau ac unigolion, gan gynnwys:

- Merched Medrus Llambod – am eu hegri, uchelgais a'u hysbryd o gydweithio
- Nicola Doyle, Artisan's Food and Drink Boutique
- Sarah Ward, Y Stiwdio Brint
- Gabrielle Davies, Cadi a Grace Bespoke Flowers
- Lleucu Meinir, gwneuthurwr ffilmiau a ffotograffydd
- Meleri Richards ac Alison Kinsey, Cyngor Sir Ceredigion
- Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi
- Hazel Lloyd-Lubran, CAVO
- Peter Austin, Cyngor Sir Ceredigion
- Mel Davies a Bronwen Raine, Busnes Cymru
- Carys Ifan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant